Cyfansoddiad Drafft

‘Tyrfe Tawe’

1. Enw

Enw’r grŵp yw ‘Tyrfe Tawe’

2. Nôd y Grŵp

Nod y grŵp yw trefu a chynnal gŵyl cerddoriaeth Gymraeg yn Abertawe

I gyrraedd y nôd gallai’r grŵp:

- Codi arian trwy dderbyn cyfraniadau, nawdd, ceisio am arian cyhoeddus/preifat a phob ffordd arall gyfrethiol.

3. Aelodaeth

Mae aelodaeth y grŵp yn agored i unrhywun sydd â diddordeb cynorthwyo gyda’r trefniadau.

4. Rheolaeth y Grŵp

Rheolir y grŵp yn gydweithredol gyda phob aelod â’r hawl gyfartal i leisio barn. Er mwyn hwyluso trefniadaeth y grŵp etholir pwyllgor llywio i ofalu am weinyddiaeth yr ŵyl.

- Etholir swyddogion y pwyllgor llywio o blith yr aelodaeth gyffredinol fesul ŵyl i weithredu ar ran yr aelodaeth.
- Aelodaeth y pwyllgor llywio fydd; Cadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd, Is-ysgrifennydd, Trysorydd, Is-drysorydd, Swyddog Materion Cyfreithiol, Swyddog Marchnata.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd yn agored i bob aelod o’r pwyllgor llywio a’r aelodaeth gyffredinol, ac mae gan pob aelod hawl gyfartal i leisio barn.
- Petai angen ethol swyddog arall, naill ai yn dilyn ymddiswyddiad neu am resymau eraill gwneir hynny trwy cytundeb cyfarfod y grŵp.
- Cedwir cofnodion pob cyfarfod a fydd ar gael i bob aelod erbyn cyfarfod canlynol y grŵp.

5. Cyfarfodydd cyffredinol

- Cymraeg yw iaith cyfarfodydd y grŵp.
- Cynhelir cyfarfodydd cyffredinol yn rheolaidd yn ôl y galw. Penderfynir ar leoliad a dyddiad y cyfarfodydd canlynol yn ran o agenda pob cyfarfod.
- Cworwm y cyfarfodydd fydd o leiaf chwech aelod yn cynnwys o leiaf tri o’r swyddogion etholedig.
- Gwneir pob penderfyniad ar sail pleidlais, gyda mwyfrif syml. Ni fydd y cadeirydd yn pleidleisio oni bai bod y bleidlais yn gyfartal. Rhoddir pleidlais penderfynol iddo/i y prydiau hynny.

- Y tu fas i gyfarfodydd cyffredinol mae hawl gan y pwyllgor llywio, neu unrhyw aelod alw cyfarfod arbennig ar unrhyw adeg. Rhoddir rhybudd i bob aelod saith diwrnod o flaen llaw yn cynnwys dyddiad, amser, lleoliad y cyfarfod ynghyd a gwybodaeth am y busnes dan sylw.
- Y tu hwnt i gyfarfodydd cyffredinol a chyfarfodydd brys mae hawl gan yr aelodaeth apwyntio is-bwyllgor i ymdrin â materion arbennig yn ôl y galw. Gwneir hwn yn rhan o gyfarfod cyffredinol.

6. Cyllid

- Defnyddir unrhyw gyllid a godir gan neu ar ran y grŵp ar gyfer hyrwyddo nodau'r grŵp yn unig.
- Y trysorydd fydd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyllid y grŵp a chaniatau gwyrio'r cofnod yn ôl y angen.
- Cedwir cyllid y grŵp mewn cyfrif ym manc **********. Bydd y cyfrif yn enw'r grŵp a bydd angen dau lofnod o blith y Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd a'r Is-drysorydd i ganiatau gwariant.
- Rhoddir amcangyfrif o gyllid y grŵp i bob cyfarfod cyffredinol.
- Ni fydd unrhyw aelod yn elwa'r bersonol, yn ariannol neu'n faterol, o gyllid y grŵp. Telir costau yn ôl awdurdod cyfarfod cyffredinol yn unig.

7. Newidiadau i'r Cyfansoddiad
Gellir newid y cyfansoddiad trwy gynnig i gyfarfod cyffredinol neu arbennig lle mae dau draean yr holl aelodaeth cyfredol yn bresennol a bod yr holl aelodaeth wedi'u hysbysu o'r cyfarfod a'r newid o dan sylw o leiaf saith diwrnod o flaen llaw.

8. Dirwyn y grŵp i ben
Petai'r aelodaeth, neu'r pwyllgor llywio yn penderfynnu, ar sail cyllid neu arall bod yn fanteisiol dirwyn y grŵp i ben gelwir cyfarfod arbennig wrth rhoi o leiaf siath diwrnod o rybudd i bob aelod ynghyd â manylion y cynnig gerbron. Petai dau draean y rhai sydd yn bresennol ac yn pleidleisio yn dymuno hynny fe ddaw'r grŵp i ben. Petai hynny'n digwydd rhoddir unrhyw gyfalaf sydd yn weddil yn dilyn taliad unrhyw ddyledion i elusen neu gorff gwirfoddol o ddewis yr aelodaeth.

Llofnod a Dyddiad

_____

_____

_____

_____

Ar ran 'Tyrfe Tawe'